**Adroddiad i:** Y Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Tachwedd 2012

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** David Smith
Aelod Arweiniol dros Fannau Cyhoeddus

**Awdur yr Adroddiad:** Hywyn Williams
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid

**Teitl:** **Strategaeth Gwrth-fudreddi**

---

**1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?**

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwrth-fudreddi sydd i'w gweld yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Y rheswm dros wneud yr adroddiad hwn yw er mwyn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. Y mae'r ddau yn cysylltu â'r flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol o 'Strydoedd Glân a Thaclus'.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-fudreddi ac yn cytuno ar y camau nesaf sy'n cael eu disgrifio yn y Cynllun Gweithredu.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Cafodd y Strategaeth (Atodiad 1) ei pharatoi o ganlyniad i broblemau cynyddol gyda baw cŵn yn y Sir. Roedd ein Harolwg Trigolion diweddaraf yn dangos fod baw cŵn yn un o'r pethau pennaf roedd trigolion yn dymuno cael sylw ac mae hyn wedi codi fel pryder gwirioneddol wrth drafod gyda thrigolion a gydag Aelodau Etholedig. Mae datblygu'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'r flaenoriaeth gorfforaethol o 'Ddarparu Strydoedd Glân a Thaclus'.

Mae'r Strategaeth Gwrth-fudreddi yn anelu at gael llai o faw cŵn mewn mannau cyhoeddus yn Sir Ddinbych ac mae wedi'i rhannu'n dair prif ran, sef:

- Codi ymwybyddiaeth ynghylch problemau sy'n gysylltiedig â baw cŵn ac ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud yn eu cylch mewn ymgyrch gyfathrebu a marchnata.
- Sicrhau fod yna ddigon o finiau ysbwriel cyhoeddus lle gellir gwaredu baw cŵn ac amlygu'r trefniadau casglu sydd yna ym mhob un o'n cymunedau.
- Cynyddu cadernid y mesurau gorfodi sydd ar gael i'r Cyngor

Bwriada'r Cyngor weithio'n agos iawn â Chynghorau Tref a Chymuned ac ag unrhyw sefydliad neu grŵp arall mewn cymunedau sydd â rhan i'w chwarae mewn bod o gymorth i wireddu'r Strategaeth hon. Mae'r Strategaeth yn amlinellu manylion o dan y tri phrif faes yma. Dynodwyd Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer y tri edefyn a nodwyd, fel a ganlyn:

- Cyfathrebu a Marchnata - Jamie Groves

- ❖ Trefniadau Casglu - Steve Parker
- ❖ Gorfodaeth - Graham Boase

Mae gan bob un o'r tri edefyn a nodwyd gynlluniau gweithredu (Atodiad 2) er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor yn gwireddu'r strategaeth yn effeithiol ac o fewn y cyfnod a osodir. Hefyd, bwriedir mesur effaith y Strategaeth yn erbyn dangosyddion a fydd yn cael eu datblygu i werthuso darpariaeth y flaenoriaeth gorfforaethol o 'Ddarparu Strydoedd Glân a Thaclus'. Nid yw'r mesurau hyn wedi'u datblygu'n gyflawn eto, ond maen nhw'n debyg o gynnwys mesurau megis:

- ❖ Faint o gwynion y bydd y Cyngor yn eu derbyn ynghylch baw cŵn
- ❖ Faint o Rybuddion Talu Cosb a fydd yn cael eu cyflwyno ynghylch problemau baw cŵn
- ❖ Canfyddiadau cyhoeddus, a rhai Cynghorau Tref a Chymuned, ynghylch pa mor lân yw strydoedd a chymunedau

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd datblygu a gweithredu'r Strategaeth hon yn cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol o 'Ddarparu Strydoedd Glân a Thaclus'.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd y rhan fwyaf o gostau gweithredu'r strategaeth hon yn cael eu talu o gyllidebau'r gwasanaeth, er y bydd gofyn cael ychydig o arian ychwanegol ar gyfer yr edefyn cyfathrebu a marchnata. Mae hyn tua £12-15,000 a daw o'r Gronfa Gallu ar gyfer Newid. Mae'n debyg y daw incwm ychwanegol drwy gyflwyno rhagor o Rybuddion Talu Cosb nag o'r blaen. Ni fydd gofyn cael rhagor o arian ar gyfer gwasanaethau XFOR gan y telir yn uniongyrchol am y rhain o'r incwm ddaw o Rybuddion Talu Cosb. Ystyrir mai costau cychwynnol, yn bennaf, yw'r uchod a bydd cynnal y Strategaeth yn y dyfodol yn cael ei adnewyddu drwy Her Gyllidebol ac arian yn ôl blaenoriaeth.

**7. Pa ymgynghoriadau a wnaed ac a gynhaliwyd Asesiad Sgrinio Effeithiau Cydraddoldeb?**

Cododd pwysigrwydd cynhyrchu'r Strategaeth hon o sylwadau gan y cyhoedd, drwy'r Arolwg Trigolion a thrwy sianelau cyfathrebu eraill gyda'r Cyngor, ac o wybodaeth a gasglwyd o bryderon a fynegwyd gan ac wrth Aelodau.

Cafodd y mater ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2012 a gofynnwyd am drefnu Seminar Aelodau i drafod y mater yn fanylach. Mae Cynghorau Tref a Chymuned hefyd wedi gofyn i'r Awdurdod roi ychydig o gyfeiriad i'r maes llafur hwn ac wedi gofyn iddo gael ei drafod mewn cyfarfodydd clystyrau a oedd yn cael eu cynnal ddiwedd Medi a dechrau Hydref. Ymhellach, cynhaliwyd Seminar Aelodau ar 7 Tachwedd 2012 ac mae sylwadau'r aelodau a oedd yn bresennol i'w gweld yn Atodiad 3.

Bydd Asesiad Effaith Cyfartaledd yn cael ei gynnal cyn i'r Cabinet drafod yr adroddiad.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n edrych yn debyg y bydd costau parhaus y cynnig yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol neu o incwm ychwanegol a ddaw drwy waith gorfodaeth. Bydd arian unwaith ac am byth i dalu am y gwaith marchnata cychwynnol ar gael drwy'r gronfa gallu ar gyfer newid. Pe byddai unrhyw gynigion angen rhagor o arian, yna byddai'n rhaid gwneud digon o gynilion ar eu cyfer neu eu hystyried yn y prosesau herio gwasanaethau a gosod cyllidebau.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae yna nifer o risgiau yn gysylltiedig â pheidio â pharatoi Strategaeth Gwrth-fudreddi, sef:

- Risg i enw da'r Cyngor o gael ei weld yn methu a chynnig unrhyw gyfeiriad mewn maes sydd o bryder i'n trigolion
- Mae yna risg arall hefyd o beidio ag ymateb i Flaenoriaeth Gorfforaethol a nodwyd, sef 'Darparu Strydoedd Glân a Thaclus' gan fod hyn yn bryder mawr i'n cymunedau.
- Bydd darparu strategaeth glir, gadarn, yn cael ei chyfathrebu'n dda i ymdrin â phroblemau baw cŵn yn lleihau'r risg i enw da, yn gwneud ein cymunedau'n lanach ac yn lleihau'r risg o afiechyd a allai o godi wrth i'r cyhoedd ddod i gyswllt â baw cŵn.

w

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

Mae Adran 59 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, Adran 119 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi hawl i'r Awdurdod gymryd y penderfyniad.